DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Ddarparwr Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

## The Beauty Therapy and Electrolysis Clinic

10 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-4721-9
© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 3

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 6

    Ansawdd Profiad y Claf ........ 6

    Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 8

    Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 10

6. Y Camau Nesaf ........ 13

    Atodiad A ........ 14

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio’n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau’n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau’n bodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.[1]

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canlyniadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol.  Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth

---

[1]Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd. http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd

## 2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gasglu gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo hyn yn briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn dyddiad yr arolygiad

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad yn cael eu hysbysu i ddarparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.[2] Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau yn cofnodi ciplun o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[2]Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Dyma'r achos lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copïau o broses cydymffurfedd AGIC ar gael ar gais.

## 3. Cyd-destun

Mae'r Beauty Therapy and Electrolysis Clinic wedi'i gofrestru ag AGIC fel ysbyty annibynnol ac yn darparu triniaethau sy'n defnyddio technoleg Golau Pwls Dwys[3] yn 46a Commercial Street, Casnewydd.  Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ym mis Medi 2004.

Mewn perthynas â'r gwasanaeth cofrestredig, nid oes ond un aelod o staff (y rheolwr cofrestredig) sy'n ymgymryd â thriniaethau Golau Pwls Dwys at ddibenion gwaredu gwallt, a hynny ar gyfer oedolion sy'n hŷn na 18 oed.

Gwnaeth AGIC gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd i'r gwasanaeth  ar 10 Mehefin 2015.

[3]Mae Golau Pwls Dwys yn dechnoleg ffynhonnell golau sbectrwm eang, a chaiff ei ddefnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i gynnal amrywiaeth o driniaethau i'r croen at ddibenion esthetig a therapiwtig.

## 4. Crynodeb

Roedd yr adborth a welsom gan gleifion yn nodi eu bod yn hapus â'r driniaeth a'r gwasanaeth a ddarparwyd. Roedd canllaw i gleifion ar gael iddynt ei weld, ond roedd angen ei ddiweddaru. Roedd gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu i gleifion cyn ac ar ôl iddynt gael triniaeth, er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn ynghylch y weithdrefn. Casglwyd hanes meddygol a chaniatâd ysgrifenedig, ac roedd cofnod o driniaethau cleifion yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

Gwelsom dystiolaeth bod yr offer golau pwls dwys a'r triniaethau a ddarparwyd yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod angen i ddau o'r diffoddwyr tân gael eu gwasanaethu, ac roedd y dyddiad wedi dod i ben ar y pecyn cymorth cyntaf ar gyfer llosgiadau yn yr ystafell driniaeth, ac roedd angen prynu pecyn newydd yn ei le.

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Roedd datganiad o ddiben ar gael, ond roedd angen ei ddiweddaru er mwyn cydymffurfio'n â'r rheoliadau.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom nodi'r meysydd canlynol ar gyfer gwella: y datganiad o ddiben, y canllaw i gleifion, polisïau a gweithdrefnau, ac addasrwydd y rheolwr cofrestredig. Mae'r rhain wedi eu hamlinellu ym mhrif ran yr adroddiad ac yn Atodiad A. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau gweithredu ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Roedd yr adborth a welsom gan gleifion yn nodi eu bod yn hapus â'r driniaeth a'r gwasanaeth a ddarparwyd.Roedd canllaw i gleifion ar gael iddynt ei weld, ond roedd angen ei ddiweddaru.Roedd gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu i gleifion cyn ac ar ôl iddynt gael triniaeth, er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn ynghylch y weithdrefn.Casglwyd hanes meddygol a chaniatâd ysgrifenedig, ac roedd cofnod o driniaethau cleifion yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.**

Roedd copi o'r canllaw i gleifion ar gael i gleifion ar ffurf llyfr gwybodaeth yn y dderbynfa. Fodd bynnag, nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, yn benodol:

- Crynodeb o'r datganiad o ddiben
- Crynodeb o'r weithdrefn gwyno
- Crynodeb o safbwyntiau/adborth ar y gwasanaeth gan gleifion
- Cyfeiriad AGIC
- Adroddiad arolygu mwyaf diweddar AGIC neu wybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar gopi (e.e. dolen i wefan AGIC)

Gwnaethom sylwi hefyd bod y canllaw i gleifion yn cynnwys cyfeiriad anghywir at reoliadau AGIC yn hytrach nag at y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru), a gwnaethom hysbysu'r darparwr i gywiro hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru'r canllaw i gleifion i gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.***

***Mae angen mynd i'r afael â'r cyfeiriad anghywir at reoliadau AGIC.***

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion ar y gwasanaethau Golau Pwls Dwys a ddarparir. Cwblhawyd un o'r holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad, ac roedd hwn yn nodi bod y claf yn hapus iawn â'r gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gan y gwasanaeth ddull ar gyfer casglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, a dywedwyd wrthym fod hwn yn cael ei ddadansoddi bob blwyddyn. Gwelsom gopi o ganlyniadau adborth gan

chwech o gleifion. Dangosodd hyn fod yr holl gleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a'r driniaeth a ddarparwyd.

Gwelsom fod yr holl wybodaeth briodol yn perthyn i gleifion a thriniaethau yn cael ei chofnodi. Roedd cofnod o driniaethau yn cael ei gynnal a'i gadw, ac roedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am gleifion a thriniaethau, gan gynnwys manylion am unrhyw effeithiau niweidiol. Gwelsom fod y cleifion a oedd wedi derbyn triniaeth wedi cwblhau ffurflenni hanes meddygol ac wedi llofnodi cydsyniad i dderbyn triniaeth.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl gleifion yn derbyn ymgynghoriad cyn cael triniaeth, a'u bod yn cael gwybodaeth ynghylch peryglon a buddion posibl y driniaeth. Dangoswyd taflen wybodaeth inni hefyd, a gallai cleifion fynd â hon adref er mwyn ystyried eu hopsiynau triniaeth. Darparwyd gwybodaeth i gleifion ar ôl y driniaeth hefyd, ac roedd hon yn cynnwys cyngor ynghylch ôl-ofal.

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ddangos ei fod yn deall yr angen i barchu a chadw preifatrwydd ac urddas cleifion. Roedd trefniadau ar waith i gleifion gael lle preifat i newid cyn derbyn triniaeth, roedd drysau a llenni yn cael eu cadw ar gau yn ystod y driniaeth, ac roedd tywelion yn cael eu darparu er mwyn cynnal urddas cleifion.

Am fod y clinig wedi'i leoli ar lawr cyntaf yr adeilad, ac mai'r unig fynediad ato yw drwy ddringo grisiau, ni ellir rhoi triniaeth i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn na chleifion sydd ag anawsterau symudedd.  Mae hwn wedi'i adlewyrchu yn natganiad o ddiben y gwasanaeth.

Gwnaethom sylwi bod tystysgrif cofrestriad wedi'i harddangos yng nghoridor y clinig, ond nid oedd hon yn gyfredol ac nid oedd tystysgrif cofrestriad gyfredol AGIC wedi'i harddangos.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai’r gwasanaeth arddangos tystysgrif cofrestriad gyfredol gan AGIC yn yr adeilad fel y gall cleifion ei gweld.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Gwelsom dystiolaeth bod yr offer golau pwls dwys a'r triniaethau a ddarparwyd yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y gwasanaeth.Fodd bynnag, gwelsom fod angen i ddau o'r diffoddwyr tân gael eu gwasanaethu, ac roedd y dyddiad wedi dod i ben ar y pecyn cymorth cyntaf ar gyfer llosgiadau yn yr ystafell driniaeth, ac roedd angen prynu pecyn newydd yn ei le.**

Gwnaethom edrych ar y trefniadau a'r dogfennau a oedd yn ymwneud â'r peiriant Golau Pwls Dwys. Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredydd awdurdodedig wedi ymgymryd â'r hyfforddiant Golau Pwls Dwys/Laser perthnasol a bod hyfforddiant diweddaru wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2014.

Gwnaeth y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, sy'n darparu arweiniad arbenigol mewn perthynas â'r offer laser/Golau Pwls Dwys, ymweld â'r lleoliad ddiwethaf ym mis Mawrth 2015, ac fe wnaeth ddarparu adroddiad ymweliad. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod y meysydd yn yr adroddiad wedi derbyn sylw. Cafodd y peiriant Golau Pwls Dwys ei wasanaethu yn ddiweddar, ac mae'r gweithredydd awdurdodedig wedi cofrestru i dderbyn y rheolau lleol ar gyfer defnyddio'r cyfarpar.

Cawsom wybod fod drws yr ystafell yn cael ei gloi yn ystod y driniaeth a bod arwydd yn cael ei osod i nodi bod y peiriant Golau Pwls Dwys yn cael ei ddefnyddio, a darparir cyfarpar i ddiogelu'r llygaid. Roedd trefniadau addas ar waith i atal unrhyw un rhag defnyddio'r peiriant Golau Pwls Dwys heb awdurdod.

Gwnaethom edrych ar dystysgrifau cynnal a chadw'r lleoliad, a gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal yn rheolaidd i wirio bod dyfeisiau bach trydanol yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Mae'r gwifrau'n cael eu gwirio pob pum mlynedd. Cwblhawyd y gwiriad diwethaf ym mis Mehefin 2010, ac roedd angen ei ddiweddaru ar ddiwedd Mehefin 2015. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr practis at hyn, ac roedd yn ymwybodol y byddai angen ei gwblhau. Nid oes nwy na lifftiau yn yr adeilad.

Gwelsom fod yr asesiadau risg wedi cael eu cwblhau mewn perthynas â'r offer Golau Pwls Dwys a'r ystafell driniaeth, yn ogystal ag asesiad risg tân. Cynhaliwyd ymarferion tân yn rheolaidd, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân. Roedd tri diffoddydd tân yn y clinig. Fodd bynnag, gwelsom fod dyddiad gwasanaethu dau o'r diffoddwyr tân wedi dod i ben rhai blynyddoedd yn ôl. Tynnwyd sylw hyn at y rheolwr cofrestredig ar ddiwrnod yr arolygiad, ac fe gytunodd i fynd i'r afael â'r mater. Yn dilyn yr arolygiad, gwnaeth AGIC ymgynghori â Gwasanaeth Tân De Cymru ynghylch cyfarpar diffodd tân y lleoliad, gan gadarnhau'r disgwyliadau ynghylch gwasanaethu'r offer yn rheolaidd. Derbyniwyd tystysgrif cynnal a chadw wrth y rheolwr cofrestredig yn dilyn yr arolygiad er mwyn nodi bod y diffoddwyr tân bellach

wedi cael eu harchwilio. O ganlyniad, cawsom gadarnhad bod y camau gweithredu priodol wedi cael eu cynnal ynghylch y diffoddwyr tân. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y rheolwr cofrestredig yw sicrhau bod trefniadau addas parhaus ar waith i amddiffyn staff a chleifion mewn tân.

Ar y cyfan, gwelsom fod y clinic yn lân ac yn daclus. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw wastraff clinigol wedi'i gynhyrchu yn y gwasanaeth, ac roedd gwastraff domestig yn cael ei gasglu gan y cyngor. Roedd polisi glanhau a oedd yn nodi manylion glanhau’r ystafell driniaeth/cyfarpar rhwng apwyntiadau cleifion, ac roedd amserlenni glanhau yn cael eu cynnal a'u cadw. Fodd bynnag, nid oedd polisi rheoli heintiau ar gael i ddisgrifio'n fanwl y trefniadau yn y clinig megis ymolchi dwylo.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r gwasanaeth ddatblygu polisi rheoli heintiau.***

Gwnaethom drafod y trefniadau mewn argyfwng â'r rheolwr cofrestredig, a wnaeth gadarnhau ei fod yn ymwybodol am y weithdrefn y dylid ei dilyn pe bai tân neu argyfwng meddygol.  Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gyfer llosgiadau ar gael yn yr ystafell driniaeth, ond gwelsom fod y dyddiad wedi dod i ben ers nifer o flynyddoedd, ac roedd caeadau rhai o'r deunyddiau wedi dirywio, a oedd yn golygu nad oeddent bellach wedi'u sterileiddio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gofal a thriniaeth sy’n ddiogel ac yn effeithiol. Yn benodol, dylai unrhyw ddeunyddiau neu offer sydd at ddibenion cymorth cyntaf fod yn addas i'w defnyddio.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion.Roedd datganiad o ddiben ar gael, ond roedd angen ei ddiweddaru er mwyn cydymffurfio'n â'r rheoliadau.**

Mae’r Beauty Therapy and Electrolysis Clinic yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig, sef unig weithredwr y peiriant Golau Pwls Dwys sydd wedi'i gofrestru. Roedd un aelod arall o staff yn gweithio yn y clinig, ond nid oeddent yn ymwneud â darparu triniaethau Golau Pwls Dwys. Roedd staff y clinig yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd datganiad o ddiben ar waith, ond roedd angen ei ddiweddaru er mwyn iddo gydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol. Yn benodol, nid oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y trefniadau ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion (e.e. drwy holiadur), y dyddiad y cafodd ei lunio a'i ddiwygio, na chyfeiriad AGIC parthed y weithdrefn gwyno.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddaru i gynnwys y trefniadau ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion, y dyddiad y cafodd ei lunio a'i ddiwygio, a chyfeiriad AGIC parthed y weithdrefn gwyno.***

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi’i adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd yn yr adran flaenorol, nid oedd polisi rheoli heintiau gan y gwasanaeth. Gwelsom fod polisi amddiffyn oedolion agored i niwed ar waith, ond roedd angen cadarnhau a diweddaru manylion yr arweinydd diogelu lleol. Ni chwblhawyd unrhyw hyfforddiant diweddar ynghylch amddiffyn oedolion agored i niwed. Ni chynhaliwyd unrhyw bolisi na hyfforddiant ynghylch diogelu plant, ond gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau nad oedd y clinig yn cynnig apwyntiadau i blant.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y polisi ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn gyfredol a bod hyfforddiant ynghylch diogelu oedolion sy'n agored i niwed yn cael ei gwblhau.***

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion a gwybodaeth ynghylch triniaethau Golau Pwls Dwys yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol.

Gwnaethom edrych ar sut roedd y clinig yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg mewn

perthynas ag iechyd a diogelwch staff a chleifion, ac roedd wedi derbyn cyngor proffesiynol perthnasol yn rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Gofynnwyd i gleifion gwblhau ffurflenni adborth cynhwysfawr, a darparwyd blwch awgrymiadau yn y dderbynfa lle gallai cleifion ddarparu sylwadau yn anhysbys. Roedd cleifion hefyd yn gallu darparu eu barn a'u sylwadau drwy wefan y clinig. Cafodd adborth cleifion ei adolygu er mwyn asesu p'un a oedd angen gwneud newidiadau i'r driniaeth neu'r gwasanaethau a ddarparwyd. Golyga hyn fod y gwasanaeth wedi cymryd rhai camau i sicrhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig, a gytunodd i sicrhau y byddai’r gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei ddiweddaru er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae’n rhaid i'r rheolwr cofrestredig feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi’i dyddio o fewn y tair blynedd ddiwethaf.***

Gan mai'r rheolwr cofrestredig oedd yr unig aelod o staff a oedd yn ymwneud â gwasanaethau Golau Pwls Dwys, nid oedd gwybodaeth ynghylch trefniadau cynllunio na hyfforddiant y gweithlu yn ffurfio rhan o'r arolygiad hwn (e.e. cyrsiau cynefino ac arfarniadau).

Roedd polisi cwynion ar gael yn unol â'r rheoliadau. Dywedwyd wrthym nad oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gwynion, a chawsom weld y ffolder a fyddai'n cynnwys cofnodion unrhyw gwynion a dderbyniwyd, gan gynnwys cofnodion cwynion a wnaed ar lafar.

Roedd gan y clinig wefan a oedd yn cynnwys gwybodaeth i gleifion ynghylch triniaethau yn ogystal â manylion cyswllt. Gwnaethom sylwi bod datganiad ynghylch cofrestriad y clinig ag AGIC ar brif dudalen y wefan. Fodd bynnag, roedd y datganiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth nad oedd yn gywir ac a oedd o bosibl yn gamarweiniol i gleifion, a hynny ynghylch rôl AGIC a pherthynas y clinig ag AGIC. Er enghraifft, roedd yn dweud bod gan y clinig "*gofnod di-fai.Cynhelir arolygiad bob blwyddyn, ac mae gennym dystysgrifau cymeradwyo am ein hamser a'n hymdrech."* Er bod y clinig wedi'i gofrestru ag AGIC ac wedi derbyn tystysgrif cofrestriad, nid yw hyn yn gymeradwyaeth o'r gwasanaeth. Mae’r cyfeiriad at gofnod di-fai hefyd yn gamarweiniol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ddiweddaru'r wybodaeth ar ei wefan sy’n cyfeirio at ei gofrestriad ag AGIC a'r arolygiad.***

O ystyried nifer y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer monitro cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i’w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn eglur sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn y Beauty Therapy and Electrolysis Clinic yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu barhaus.

*Atodiad A*

## Cynllun Gwella

**Gwasanaeth:** The Beauty Therapy and Electrolysis Clinic

**Dyddiad yr arolygiad:** 10 Mehefin 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru'r canllaw i gleifion i gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.<br>Mae angen mynd i'r afael â'r cyfeiriadau anghywir ynghylch rheoliadau AGIC. | Rheoliad 7 | | | |
| 7 | Dylai'r gwasanaeth arddangos tystysgrif cofrestriad AGIC gyfredol yn yr adeilad lle y gall cleifion ei gweld. | | | | |
| **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Dylai'r gwasanaeth ddatblygu polisi rheoli heintiau. | Rheoliad 9 (n) | | | |

| **Rhif y dudalen** | **Yr hyn sydd angen ei wella** | **Rheoliad / Safon** | **Cam gweithredu'r gwasanaeth** | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gofal a thriniaeth sy’n ddiogel ac yn effeithiol. Yn benodol, dylai unrhyw ddeunyddiau neu offer sydd at ddibenion cymorth cyntaf fod yn addas i'w defnyddio. | Safon 7 | | | |
| **Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 10 | Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddaru i gynnwys y trefniadau ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion, y dyddiad y cafodd ei lunio a'i ddiwygio, a chyfeiriad AGIC parthed y weithdrefn gwyno. | Rheoliad 6 (1) ac Atodlen 1 | | | |
| 10 | Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod ei bolisi ar amddiffyn oedolion sy’n agored i niwed yn gyfredol a bod hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed wedi’i gwblhau. | Safon 11 y Safonau Gofynnol Cenedlaeth ol | | | |
| 11 | Mae’n rhaid i'r rheolwr cofrestredig feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi’i dyddio o fewn y tair blynedd | Rheoliad 12 (c) ac Atodlen 2 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddiwethaf. | | | | |
| 11 | Dylai'r gwasanaeth ddiweddaru'r wybodaeth ar ei wefan sy'n cyfeirio at ei gofrestriad ag AGIC a'r arolygiad. | Safon 18 (Safonau Gofynnol Cenedlaethol) | | | |

**Cynrychiolydd y Gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):..........................................................................................**

**Teitl: ..........................................................................................**

**Dyddiad: ..........................................................................................**